

**1.GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483
(LLANYMDDYFRI I DDINAS-Y-BWLCH, SIR
GAERFYRDDIN) (GWAHARDDIADAU A
CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, rhwng Llanymddyfri a Dinas-y-bwlch, Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A483 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybr arall yn yr Atodlen honno hefyd.

ii. gosod terfyn cyflymder o 40 mya neu 10 mya ar y darn o gefnffordd yr A483 a ddisgrifir yn Atodlen 2. Dim ond yn ystod gwaith confoi y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

iii. gosod terfyn cyflymder o 10 mya a gwahardd goddiweddyd yn ystod gwaith confoi ar y darn o gefnffordd yr A483 a ddisgrifir yn Atodlen 3.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 1 Medi 2021. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro yn weithredol, yn ôl y gofyn, o 00:01 o'r gloch ar 1 Medi 2021 hyd 23:59 o'r gloch ar 10 Medi 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Bydd y ffordd yn cael ei chau fesul rhan yn ystod y cyfnod hwn a chodir arwyddion i roi hysbysiad ymlaen llaw am y gwaharddiadau cyn i'r gwaith ddechrau. Sicrheir mynediad i eiddo ar hyd y darn fydd ar gau.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf, rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**THE A483 TRUNK ROAD (LLANDOVERY TO
SUGAR LOAF, CARMARTHENSHIRE)
(TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS &
RESTRICTIONS) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road between Llandovery and Sugar Loaf, Carmarthenshire.

The effect of the Order is to temporarily:

i. prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the length of the A483 trunk road described in Schedule 1 to this Notice. The alternative route is also described therein.

ii. impose a 40 mph or 10 mph speed limit on the length of the A483 trunk road described in Schedule 2. The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

iii. impose a 10 mph speed limit and prohibit overtaking during convoy working on the length of the A483 trunk road described in Schedule 3.

The Order comes into force on 1 September 2021. The temporary prohibitions and restrictions are expected to operate, as required, from 00:01 hours on 1 September 2021 until 23:59 hours on 10 September 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The road will be closed in sections during this period and notice of the prohibitions will be signed in advance of the works. Access will be maintained to properties along the length of a closure.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government

ATODLEN 1

Gwahardd cerbydau dros dro a llwybr arall

Y darn o'r A483 sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â'r A40 yn Llanymddyfri am bellter o tua 13.8 o gilometrau.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd-ddwyrain o Lanymddyfri yw mynd ar yr A40 tua'r dwyrain i Aberhonddu, yr A470 tua'r gogledd i Lanfair-ym-Muallt a'r A483 tua'r gorllewin: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de-orllewin.

ATODLEN 2

Terfyn cyflymder 40 mya neu 10 mya dros dro a dim goddiwedd

Y darn o'r A483 sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o bwynt 702 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â'r A40 yn Llanymddyfri am bellter o tua 14.6 o gilometrau.

ATODLEN 3

Terfyn cyflymder 10 mya dros dro a dim goddiwedd

Y darn o'r A483 sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â'r A40 yn Llanymddyfri hyd at bwynt 702 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno.

SCHEDULE 1

Temporary prohibition of vehicles and alternative route

The length of the A483 that extends in a north-easterly direction from its junction with the A40 at Llandovery for a distance of approximately 13.8 kilometres.

The alternative route for north-eastbound vehicles from Llandovery is via the eastbound A40 to Brecon, northbound A470 to Builth Wells and westbound A483: vice versa for south-westbound vehicles.

SCHEDULE 2

Temporary 40 mph or 10 mph speed limits & no overtaking

The length of the A483 that extends in a north-easterly direction from a point 702 metres north-east of its junction with the A40 at Llandovery for a distance of approximately 14.6 kilometres.

SCHEDULE 3

Temporary 10 mph speed limit & no overtaking

The length of the A483 that extends in a north-easterly direction from its junction with the A40 at Llandovery to a point 702 metres north-east of that junction.